





Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



The Wales School for Social Care Research
Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru

Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru

**Dyfarniad Ysgoloriaeth Ymchwil PhD mewn Gofal
Cymdeithasol 2018**

Canllawiau ar gyfer cwblhau'r ffurflen gais

Cynnwys

Adran 1: Canllawiau cyffredinol.....	3
Adran 2: Cymhwyster a chyfyngiadau ariannol.....	4
Adran 3: Cwblhau'r ffurflen gais	5
Adran 4: Cyflwyno'r cais	12
Adran 5: Meini prawf asesu	13
Adran 6: Beth sy'n digwydd nesaf?.....	14
Atodiad 1:.....	15

Adran 1: Canllawiau cyffredinol

Darllenwch y canllawiau yma yn drwyadl cyn cwblhau cais.

1.1 Cyflwyniad i'r alwad

Mae Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru (YGGCC) yn cynnig Dyfarniadau Ysgoloriaeth Ymchwil PhD ar gyfer ymchwil mewn gofal cymdeithasol. Sefydlwyd *Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru* gan Lywodraeth Cymru i gyfrannu at gryfder mewn ymchwil gofal cymdeithasol o safon gyda chymhwysiadau yn y byd go iawn ac effaith gadarnhaol ar les pobl yng Nghymru. Mae'r Ysgol yn rhan o seilwaith ehangach Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac mae Canolfan yr Ysgol yng Ngholeg Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe, gyda staff wedi eu lleoli ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd.

Mae Dyfarniad Ysgoloriaeth Ymchwil PhD YGGCC yn ariannu unigolion i ymgymryd ag ymchwil ac astudiaeth o safon uchel gan arwain at gymhwyster PhD. Bydd prosiectau a gaiff eu cynnal fel rhan o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol a disgwylir iddynt fod yn berthnasol i bolisi a/neu ymarfer gofal cymdeithasol. Rhaid i geisiadau ddod oddi wrth y darpar Oruchwyliwr PhD, a ddiffinir fel yr 'Ymgeisydd' ar gyfer y cynllun hwn.

Croesawir ceisiadau mewn dau faes:

- Prosiectau PhD sydd yn mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth ymchwil 'Gofal a Chymorth yn y Cartref'; 'Dementia' a 'Plant sy'n derbyn gofal', gyda ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r rhain wedi eu henwebu fel blaenoriaethau ymchwil allweddol yn seiliedig ar bolisi Llywodraeth Cymru ac i alinio â'r ffocws ar ymchwil a gwelliant ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Prosiectau PhD di-thema.

Unwaith bod dyfarniad wedi ei derbyn, rhaid i Ymgeiswyr llwyddiannus recriwtio Myfyriwr addas i'r prosiect erbyn **1 Hydref 2018**. Rhaid danfon CV y myfyriwr at YGGCC erbyn y terfyn amser yma. O fethu â recriwtio Myfyriwr erbyn y terfyn amser bydd y Dyfarniad Ysgoloriaeth Ymchwil yn cael ei dynnu'n ôl.

1.2 Amserlen ddangosol

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais yw **5:00pm ar ddydd Llun 9^{fed} Gorffennaf 2018**. Ni fydd ceisiadau a ddaw i law wedi'r dyddiad hwn yn cael eu hasesu. Bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi yng Ngorffennaf 2018. Rhaid i bob Ymgeisydd llwyddiannus fod mewn sefyllfa i fedru dechrau'r gweithgareddau arfaethedig erbyn **1 Hydref 2018**.

Adran 2: Cymhwyster a chyfyngiadau ariannol

2.1 Meini prawf cymhwyster

Rhaid i ymgeiswyr foddhau'r meini prawf canlynol:

- Rhaid i'r Ymgeisydd (h.y. y Goruchwyliwr PhD arfaethedig) fod wedi ei leoli/lleoli yn y Sefydliad Cynhaliol pan font yn gwneud y cais.
- Rhaid i'r Sefydliad Cynhaliol fod yn sefydliad sydd wedi ei leoli yng Nghymru.
- Rhaid i Ymgeiswyr fod mewn sefyllfa i fedru dechrau gweithgareddau erbyn 1 Hydref 2018.
- Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gyda chefnogaeth y Sefydliad Cynhaliol.
- Rhaid i geisiadau nodi a ydynt am fynd i'r afael â'r meysydd polisi sy'n flaenoriaeth a restrir yn Adran 7 o'r ffurflen gais neu a ydynt am geisio am brosiect PhD di-thema.
- Rhaid i'r Myfyriwr sy'n cael ei recriwtio gael ei ariannu/hariannu'n gyfan gwbl ar gyfer y prosiect hwn gan Dyfarniad Ysgoloriaeth Ymchwil YGCCC.
- Mae modd ymgymryd ag Ysgoloriaethau ymchwil ar sail amser llawn tros 3 mlynedd (100% WTE), neu'n rhan amser dros gyfnod o 6 mlynedd (50% WTE).
- Ni ellir defnyddio'r cynllun hwn i ariannu rhan o gwrs astudiaethau cyfredol sy'n arwain at gymhwyster PhD.
- Ni all Myfyrwyr a recriwtir fod wedi eu cofrestru ar hyn o bryd gyda phrifysgol ar gyfer cwrs o astudiaethau sy'n arwain at gymhwyster PhD.
- Mae'r Ysgoloriaeth ymchwil yma ar gael dim ond i ymgeiswyr o'r DU EU.
- Bydd angen dau ganolwr – dylai un o'r rhain, yn ddelfrydol, fod yn ganolwr academaidd.
- Rhaid i'r cais fod yn brosiect ymchwil gofal cymdeithasol. Gweler Atodiad 1.

2.2 Cyfyngiadau ariannol

Uchafswm yr arian y gall Ymgeisydd wneud cais amdano yw £60,000 (£20,000 y flwyddyn). Mae unrhyw gostau lledaenu neu gostau offer i'w cynnwys yn y cyfanswm hwn.

Adran 3: Cwblhau'r ffurflen gais

Mae rhan yma o'r ddogfen yn rhoi canllaw ar sut i gwblhau'r ffurflen gais.

Cyfyngiadau ar nifer y geiriau

Noder bod rhai cwestiynau ar y ffurflen gais wedi gosod cyfyngiad ar nifer y geiriau. Ni fydd atebion sydd yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau ymau yn cael eu hasesu.

ADRAN A: Manylion yr Ymgeisydd

Cwestiwn 1: Manylion y Prosiect

Rhowch deitl y prosiect arfaethedig.

Cwestiwn 2: Manylion yr Ymgeisydd

Rhowch fanylion ynghylch yr Ymgeisydd (Goruchwyliwr). Os yw'n fwriad gennych cael mwy nag un goruchwyliwr, yna copi'wch a phastiwch y tabl ar y ffurflen. Mae cyfeiriadau e-bost yn bwysig iawn am y bydd y rhan fwyaf o'r cyswllt ag YYGCC yn digwydd drwy e-bost.

Cwestiwn 3: Manylion y Sefydliad Cynhaliol

Rhowch enw a chyfeiriad y sefydliad a fydd yn gweinyddu'r grant. Dyma'r sefydliad y bydd Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru yn llunio cytundeb ffurfiol â hwy os bydd y cais yn llwyddiannus. Hefyd rhowch enw cyswllt a rhif teleffon ar gyfer y Swyddog Cyllid yn eich sefydliad.

ADRAN B: Manylion y Prosiect

Cwestiwn 4: Cost a hyd

Nodwch gyfanswm cost y prosiect i YYGCC, y dyddiad cychwyn (rhaid i hyn fod ar neu gyn 1 Hydref 2018) a'r dyddiad y disgwylir i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno.

Cwestiwn 5: Crynodeb lleyg

Rhowch grynodeb lleyg byr sy'n disgrifio diben a buddion disgwylid eich prosiect PhD. Dylai'r iaith fod yn eglur, rhaid diffinio terminoleg wyddonol ac acronymau, a dylid osgoi jargon. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich crynodeb lleyg yn cael ei gyhoeddi ar wefan YYGCC.

Cwestiwn 6: Allweddeiriau

Darparwch hyd at 6 allweddair sy'n berthnasol i'ch prosiect ymchwil arfaethedig, gan roi sylw, er enghraifft, i faes pwnc, y boblogaeth darged a'r fethodoleg sydd i'w defnyddio.

Cwestiwn 7: Ardal(oedd) polisi blaenoriaeth

7a – Pa ardal(oedd) blaenoriaeth fydd yn cael sylw gan eich ymchwil?

Nodwch pa un o'r ardaloedd blaenoriaeth ymchwil sy'n cael eu rhestru mae eich prosiect arfaethedig i ganolbwyntio arno. Gallwch ddethol mwy nag un. Croesawir hefyd geisiadau nad sy'n ymwneud â'r ardaloedd blaenoriaeth.

- Gofal a chymorth yn y cartref
- Dementia
- Plant sy'n derbyn gofal
- Arall.

Oddi mewn i'r tair ardal uchod y pwyslais yw ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.

7b – Ardaloedd blaenoriaeth - disgrifiad Disgrifiwch sut mae'ch prosiect yn berthnasol i'r ardal(oedd) blaenoriaeth a adnabuwyd, gan dynnu ar nodau polisi Llywodraeth Cymru pan fo hynny' berthnasol.

7c- Ardaloedd blaenoriaeth – prosiectau nad sy'n ymwneud ag ardaloedd blaenoriaeth

Dylai ceisiadau nad sy'n ymwneud ag ardaloedd blaenoriaeth a adnabuwyd (7a) ddefnyddio'r adran hon i ddisgrifio'r angen gofal cymdeithasol y mae'n mynd i'r afael ag ef.

Cwestiwn 8: Angen ac effaith

Eglurwch pam rydych o'r farn bod angen eich prosiect Gofal Cymdeithasol PhD chi. Disgrifiwch effaith debygol y caiff eich prosiect gofal cymdeithasol ar ymchwil i'r dyfodol a budd potensial eich prosiect ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng Nghymru a thu hwnt. Nodwch eich terfyn amser disgwylidig ar gyfer gwireddu'r buddion potensial hyn.

Cwestiwn 9: Amserlenni a cherrig milltir

Yma dylech nodi rhai o'r cerrig milltir allweddol ac allbynnau eich prosiect. Er enghraifft, os yw cyfweiliadau yn rhan o'ch ymchwil, dylech nodi'r nifer y byddai eu hangen, a'r terfyn amser disgwylidig o ran cwblhau.

Yn y tabl hwn dylech gynnwys gweithgareddau ar ddechrau a diwedd y broses ymchwil, megis sicrhau cymeradwyaeth moesegol ac ysgrifennu'r traethawd ymchwil.

Cwestiwn 10: Disgrifiad manwl o'r prosiect

Rhowch ddisgrifiad trwyadl o'ch prosiect ymchwil arfaethedig. Esgeulustod ar y pwynt yma yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros wrthod ceisiadau. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn adolygu'r adran hon yn drwyadl cyn cyflwyno'r cais.

Dylai'ch cais fod yn seiliedig ar y chwe adran a nodir isod:

- **nodau ac amcanion;**
- **cynllun a dull;**
- **defnydd o adnoddau;**
- **dull dadansoddi;**
- **deilliannau disgwylidig;**
- **effaith a lledaeniad.**

Cwestiwn 11: Ystyriaethau moesegol a chymeradwyaeth

Trafodwch yr holl faterion moesegol potensial sydd ynghlwm wrth y prosiect ymchwil arfaethedig ac eglurwch sut byddwch yn mynd i'r afael â hwy. Dylai hyn gynnwys trafodaeth ynghylch grwpiau bregus a materion sy'n ymwneud â chael mynediad at ddata pan fo ystyriaethau o'r fath yn berthnasol.

Noder y dylid cynnwys fel rhan o amserlen y prosiect yr amser sydd ei angen i sicrhau cymeradwyaeth foesegol. Os ydych o'r farn nad oes unrhyw ystyriaethau moesegol mewn perthynas â'r prosiect dan sylw, yna nodwch hyn yn eich ateb gan ddweud pam eich bod yn credu hyn.

Cwestiwn 12: Cynnwys y Cyhoedd a'r Claf (PPI)

Nodwch sut rydych yn bwriadu cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, a/neu aelodau o'r cyhoedd yn eich ymchwil, a disgrifiwch y buddion o wneud hyn. Dylid ystyried PPI ym mhob cam o'r prosiect, o'r cynllunio a'r datblygu hyd at gwblhau a lledaenu. Yn aml bydd aseswyr yn beirniadu ceisiadau sy'n methu â mynd i'r afael yn llawn â'r cwestiwn yma.

Mae canllawiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gynnwys pobl mewn ymchwil i'w cael yma: <https://www.healthandcareresearch.gov.wales/involving-the-public-in-your-research/>

Cwestiwn 13: Cynnwys ymarferwyr

Nodwch sut rydych yn bwriadu cynnwys neu gysylltu ag ymarferwyr gofal cymdeithasol yn eich ymchwil, a disgrifiwch y buddion o wneud hyn. Dylid ystyried hyn ar bob cam o'r prosiect, o'r cynllunio a'r datblygu hyd at gwblhau a lledaenu.

Cwestiwn 14: Ceisiadau eraill am arian

Os yw'r cais PhD yma, neu gais am arian i ymgymryd â'r prosiect ymchwil, wedi ei gyflwyno i unrhyw gyrff ariannu eraill, a fydddech cystal â rhoi manylion pob cais, gan gynnwys: swm yr arian yr ydych wedi ceisio amdano; teitl yr astudiaeth; enw'r corff ariannu dan sylw; a'r terfyn amser disgwylidig ar gyfer gwneud penderfyniadau

(neu'r canlyniad ariannu os yw penderfyniad eisoes wedi ei wneud). Dylech hefyd hysbysu YYGCC ynghylch unrhyw geisiadau cysylltiedig am arian a fyddai, o fod yn llwyddiannus, yn effeithio'ch gallu i gyflawni eich Ysgoloriaeth Ymchwil, gan gynnwys pob cais perthnasol a wnaed yn y 12 mis diwethaf. Os bydd eich cais am arian gennym yn llwyddiannus, rhaid ichi dderbyn y cynnig hwn o fewn 28 diwrnod neu bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

ADRAN C: Manylion y Sefydliad

Cwestiwn 15: Sgôr Perfformiad yr adran yn yr Ymarfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (REF)

15a) Cwblhewch y tabl gan nodi sgôr perfformiad eich Adran Gynhaliol yn yr REF mwyaf diweddar (2014). Mae sgorau REF i'w cael o ddilyn y ddolen:

<http://results.ref.ac.uk/Results/SelectHei>

15b) Disgrifiwch amgylchedd ymchwil yr Adran Gynhaliol o ran hanes blaenorol, mäs critigol, a chapasiti.

Cwestiwn 16: Cyfraniad a hanes blaenorol y Goruchwyliwr PhD

Disgrifiwch sut, fel y Goruchwyliwr PhD, y byddwch yn darparu cymorth ar gyfer y Myfyriwr yn ystod yr Ysgoloriaeth Ymchwil. Dylech fod yn gyfarwydd â thestun yr ymchwil a'r fethodoleg sydd i'w defnyddio yn y prosiect, ac yn ddelfrydol bod â phrofiad blaenorol o oruchwylio myfyrwyr PhD.

Os yw'n fwriad gennych gael mwy nag un goruchwyliwr PhD, yna defnyddiwch yr adran hon i egluro pam.

Cwestiwn 17: Hyfforddi a datblygu

Rhowch fanylion yr hyfforddi a'r datblygu y bydd y Sefydliad Cynhaliol yn ei ddarparu ar gyfer y Myfyriwr PhD tros gyfnod yr Ysgoloriaeth Ymchwil PhD. Gall hyfforddi gynnwys, er enghraifft, cyrsiau, gweithdai a chynadleddau.

ADRAN CH: Adnoddau

Cwestiwn 18: Adnoddau

Mae'n bosib y byddwch am gysylltu â swyddfa gyllid neu is-adran ymchwil eich sefydliad am gymorth wrth gwblhau'r adran hon.

Nid yw ysgoloriaethau ymchwil wedi eu cynnwys dan gostau economaidd llawn (FEC). Felly bydd cyllid YGCC yn ariannu dim ond 'Costau a Ysgwyddir yn Uniongyrchol' ac 'Eithriadau'.

Dylech gynnwys cymaint o fanylion â phosib ar gyfer pob cost dan bob penawd, gyda rhestr fesul eitem o nwyddau traul ac offer, a chynlluniau teithio a chynhaliaeth pan fo'r rhain yn hysbys. Pan fo hynny'n briodol, dylech ychwanegu penawdau gwariant ychwanegol.

Noder nad oes modd ystyried codiad chwyddiant wedi i ddyfarniad gael ei wneud.

Rhoddir arweiniad isod ynghylch beth ddylech eu cynnwys dan bob penawd.

Costau a ysgwyddir yn uniongyrchol

Nwyddau traul

Yma dylech gynnwys cost nwyddau traul, gan gynnwys argraffu a deunydd ysgrifennu.

Teithio a Chynhaliaeth

Yma dylech gynnwys y costau teithio a chynhaliaeth sy'n debygol wrth wneud yr ymchwil.

Hyfforddi a Datblygu

Yma dylech gynnwys costau tuag at y rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer yr Ysgoloriaeth Ymchwil.

Offer

Rydym yn cymryd y bydd y Sefydliad Cynhaliol yn darparu man gweithio ac offer sylfaenol i'r Myfyriwr fedru cynnal y prosiect. Fodd bynnag, os yw'n debygol y bydd angen offer ychwanegol, dylid cynnwys y costau yn yr adran hon. Hefyd rhaid cynnwys rhestr o bryniannau arwyddocaol, a rhestr fanwl o unrhyw offer y disgwylir y bydd rhaid gwario arnynt, boed hynny'n gostau hurio neu brynu.

Arall

Dylid nodi'n glir a chyfiawnhau costau ar gyfer cymorth ymchwil technegol, gweinyddol neu arall (an-academaidd) (o fewn cyfyngiadau ariannol y dyfarniad). Gallwch gynnwys yma hefyd unrhyw gostau lledaenu y gwyddoch amdanynt.

Eithriadau

Mae Cynghorau Ymchwil DU (RCUK) wedi cyhoeddi lefelau cyflog doethurol a ffioedd dangosol ar gyfer 2018.

- **Yr Isafswm Cyflog Doethurol Cenedlaethol ar gyfer 2018/19 yw £14,777**
- **Lefel Ffi Ddangosol Cynghorau Ymchwil y DU ar gyfer 2018/19 yw £4,260**

Bydd yr isafswm cyflog yn cynyddu yn unol â'r datchwyddydd CMC a dyma yw'r dechreubwynt ar gyfer pennu isafsymiau'r lefelau cyflog ac mae hyn yn golygu mai'r isafswm cyflog doethurol ar gyfer **2018/19 yw £14,777**.

Bydd lefel y ffi ddangosol ar gyfer 2017/18 yn cynyddu yn unol â'r datchwyddydd CMC ac mae hyn yn rhoi £4,260. Tra bo'r datchwyddydd CMC yn parhau i fod yn sail i bennu lefelau'r ffi ddangosol, fe gaiff ei hadolygu, ac i ddibenion cynllunio dylai sefydliadau ymchwil fod yn ymwybodol o hyn.

Cyflog

Bydd Myfyrwyr Ysgoloriaethau Ymchwil YGCC yn derbyn cyflog o **£14,777** y flwyddyn tros gyfnod y prosiect. Pan fo Ysgoloriaeth Ymchwil yn un rhan amser, bydd y Myfyriwr yn derbyn cyflog pro rata.

Ffioedd dysgu

Bydd YGCC yn talu ffioedd dysgu pan font yn rhesymol a phan nad yw'r cyfanswm yn fwy nag uchafswm yr arian a nodir yn Adran 2.2.

Yn gyffredinol, ystyrir mai rôl y Goruchwyliwr yw darparu cyngor a chymorth academaidd lefel uwch, ac fel y cyfryw, mae'r ffioedd dysgu i dalu am hyn.

Datganiad UKRI ar y cyflog a ffioedd ar gyfer 2018/2019:

<https://www.ukri.org/skills/funding-for-research-training/>

Cyfanswm

Dywedwch beth yw cyfanswm cost y prosiect. Noder mai dyma yw'r ffigwr a gaiff ei ystyried pan fo penderfyniadau ariannu yn cael eu gwneud. Nid oes modd cynyddu'r ffigwr yma unwaith i'ch cais gael ei gyflwyno.

TAW

Nodwch werth unrhyw TAW ychwanegol a fydd yn berthnasol i gost y prosiect yma (os yn berthnasol).

Prif gyfanswm

Rhowch brif gyfanswm y grant rydych yn ceisio amdano, gan gynnwys TAW os yw hynny'n berthnasol. Dylid rhoi'r ffigwr hwn hefyd fel ymateb i Gwestiwn 4.

Mae YGCC yn cadw'r hawl i ofyn am eglurhad pellach ar yr holl gostau cyn bo dyfarniad yn cael ei wneud.

ADRAN D: Datganiadau a CV

Cwestiwn 19: Datganiadau

Rhaid cael llofnodion ar gyfer yr Ymgeisydd (19a) i gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllaw hon a'ch bod yn cytuno i fod yn rhan o'r prosiect fel sy'n cael ei ddisgrifio yn y cais. Hefyd bydd angen i'r Pennaeth Adran a'r Awdurdod Gweinyddol arwyddo i gadarnhau bod y Sefydliad Cynhaliol yn cefnogi'r cais (19b).

O fod yn llwyddiannus, bydd cytundebau yn cael eu llunio gyda'r Sefydliad Cynhaliol ac felly mae'n hollbwysig eu bod yn cefnogi'r cais. Fel rheol bydd y llofnodwyr Awdurdod Gweinyddol yn lofnodwr awdurdodedig o'r adran gyllid neu gytundebau. A wnewch chi sicrhau eich bod wedi derbyn y llofnodion yma mewn da bryd am nad oes modd ymestyn terfynau amser. Bydd ceisiadau heb yr holl lofnodion angenrheidiol yn cael eu gwrthod.

Cwestiwn 20: Curriculum Vitae (CV)

Er mwyn sicrhau cysondeb yn yr wybodaeth ar draws yr holl CVs a ddaw i law, ac i helpu gydag asesiad cyson o unigolion, gofynnwn i chi gwblhau'r CV templed a ddarperir ar y ffurflen gais. Os oes mwy nag un Goruchwyliwr ar y Cais, yna copi'wch a phastiwch y CV templed gynifer o weithiau ag sydd angen.

Dylai'r Ymgiesydd ddarparu gwybodaeth dan y penawdau canlynol:

- Profiad ymchwil
- Cymwysterau
- Profiad fel Goruchwyliwr PhD
- Hanes gwaith
- Grantiau arwyddocaol a enillwyd
- Cyhoeddiadau

Mae'r CV yn cael ei ystyried i fod yn rhan o'r ddogfen ffurflen gais. Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais a'r CV(s) fel un dogfen. Ni ddylai CV fod yn hirach na dwy dudalen.

Nodyn: Cyfeiriadau

Rhaid cynnwys manylion llawn ar gyfer bob cyfeiriad a ddyfynir ar y ffurflen gais a'r CV(s) a rhaid iddynt fod ar gael ar gyfer canolwyr academiaidd sydd wedi eu haseinio i'r prosiect. Rhaid i unrhyw gyfeiriadau amwys nad sydd yn hygyrch drwy'r sianeli llyfrgell neu ryngrwyd arferol, neu ddeunydd sydd allan o brint, gael ei ddangos pan fo YYGCC yn gofyn am gael eu gweld. Nid yw cyfeiriadau yn cael eu cyfrif fel rhan o gyfyngiadau geiriau.

Adran 4: Cyflwyno'r cais

Darllenwch yr adran hon yn ofalus.

Dylai'ch Cais gynnwys:

- **Copi electronig o'r ffurflen Gais wedi ei chwblhau a'r CV(s)
(danfonwch drwy e-bost at a.m.davis@swansea.ac.uk)**

Peidiwch â danfon gwybodaeth ychwanegol am na chaiff ei hasesu.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ceisiadau yw **5:00pm** ar ddydd Llun 9^{fed} Gorffennaf **2018**.

Adran 5: Meini prawf asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gweddu amodau cymhwyster y cynllun. Bydd yr holl Geisiadau cymwys yn cael eu hasesu gan Bwyllgor Ysgoloriaeth Ymchwil PhD Ymchwil Gofal Cymdeithasol YYGCC. Mae'r meini prawf sydd i'w defnyddio ar gyfer asesu'r Ceisiadau yn cael eu hamlinellu isod:

Prosiect

- **teilyngdod gwyddonol;**
- **methodoleg;**
- **cynllunio ac adnoddau;**
- **effaith a lledaeniad.**

Sefydliad

- **ansawdd yr adran neu'r ysgol gynhaliol;**
- **cyfraniad a hanes blaenorol y Goruchwyliwr PhD;**
- **hyfforddi a datblygu.**

Bydd Pwyllgor Ysgoloriaeth Ymchwil PhD Ymchwil Gofal Cymdeithasol YYGCC yn asesu'r ceisiadau, gan wneud argymhellion ariannu i YYGCC. Bydd y penderfyniadau ariannu terfynol ar y ceisiadau llwyddiannus yn cael eu gwneud gan YYGCC. Nid yw'r penderfyniadau yma yn agored i apêl.

Wedi derbyn dyfarniad, rhaid i Ymgeiswyr llwyddiannus recriwtio Myfyriwr addas i'r prosiect erbyn **1 Medi 2018**. Rhaid danfon CV y Myfyriwr i YYGCC erbyn y terfyn amser yma. Os na fydd Myfyriwr addas yn cael ei recriwtio erbyn y terfyn amser bydd y Dyfarniad Ysgoloriaeth Ymchwil yn cael ei dynnu'n ôl.

Pan fo Ymgeisydd wedi adnabod Myfyriwr adeg gwened y cais neu yn ystod y broses ymgeisio, does dim rhaid hysbysu YYGCC hyd nes bo'r penderfyniadau ariannu wedi eu gwneud.

Yn dilyn y penderfyniadau ariannu, bydd cynigion grant yn cael eu gwneud i'r Ymgeiswyr llwyddiannus gyda'r telerau a'r amodau yn cael eu cyhoeddi. Bydd angen i'r Sefydliad Cynhaliol arwyddo'r telerau a'r amodau cyn i'r arian gael ei ryddhau. Fel rhan o'r gweithdrefnau yma, bydd proffiliau talu ac adrodd yn cael eu cytuno.

Adran 6: Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd Ymgeiswyr yn cael gwybod a ydynt wedi pasio'r cam asesiad o gymhwyster.

Bydd pob cais cymwys yn cael ei ystyried, fel sy'n cael ei amlinellu uchod, gan Bwyllgor Ysgoloriaeth Ymchwil YYGCC, a fydd yn gwneud eu hargymhellion i YYGCC yn seiliedig ar ansawdd wyddonol y Ceisiadau.

Bydd YYGCC yn gwneud y penderfyniadau terfynol, gan ystyried argymhellion y Pwyllgor a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r penderfyniadau yma yn derfynol ac nid ydynt yn agored i apêl.

Mae YYGCC yn disgwyl y byddent yn hysbysu'r holl Ymgeiswyr ynghylch y canlyniad yng Ngorffennaf 2018.

Mae gan Ymgeiswyr aflwyddiannus yr hawl i ofyn am adborth, a fydd, fel mater o gwrteisi, yn cael ei ddarparu. Ni all YYGCC drafod unrhyw adborth sy'n cael ei roi.

Os es gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y broses ymgeisio, mae croeso ichi gysylltu â'r Tîm Grantiau:

Mrs Maria Davis
Ystafell 113
Tŵr Vivian
Parc Singleton
Abertawe
Cymru
SA2 8PP

Ffôn : 01792 295309

E-bost: a.m.davis@swansea.ac.uk

Atodiad 1:

Diffiniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o Ymchwil Gofal Cymdeithasol

Bydd ymchwil gofal cymdeithasol yn archwilio ac ymchwilio cwestiynau ynghylch:

- Darpariaeth gofal, cefnogaeth a chymorth personol yng nghyd-destun perthynas rhyngpersonol, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol, mewn perthynas â: gweithgareddau byw pob dydd, cynnal annibynniaeth, ymwneud cymdeithasol, galluogi'r unigolyn i chwarae rhan fwy llawn mewn cymdeithas, cynorthwyo unigolion i reoli perthnasau cymleth, a chynorthwyo'r unigolyn i gael mynediad at neu dderbyn gwasanaethau gan gartref gofal neu lety arall â chymorth neu i fanteisio ar gyfleusterau addysgol.
- Darparu: cyngor, cymorth ymarferol yn y cartref; cymorth gydag offer ac addasiadau i'r cartref; gwasanaethau ymweld a chyfeillio; prydau; neu gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol, cymdeithasol, diwylliannol a hamdden y tu allan i'r cartref.
- Darparu: amddiffyniad neu wasanaethau cymorth cymdeithasol ar gyfer plant neu oedolion mewn angen neu rai sydd mewn perygl, neu'r rhai hynny sydd ag anghenion cymdeithasol sy'n tarddu o salwch, anabled, oed neu dlodi.
- Cwrdd ag anghenion cymdeithasol pobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol, a'r gwasanaethau neu'r mentrau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion hynny, gan gynnwys: atal dirywiad; hyrwyddo iechyd corfforol neu feddyliol; gwella cyfleoedd a chyfleoedd bywyd; cryfhau teuluoedd; ac amddiffyn hawliau dynol.
- Y systemau sefydliadol, seilwaith, lleoliadau gofal, a/neu bersonél sydd yn rhan o'r gwaith o reoli ac arwain, comisiynu, darparu, cyflawni, monitro a gwerthuso gwasanaethau gofal a chymorth, a/neu'r rhyngwyneb rhwng, neu effaith yr uchod ar systemau perthynol megis gofal iechyd, addysg, tai, a'r system cyfiawnder troseddol.